**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 23ain Gorfennaf 2003**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990
# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 23ain Gorffennaf 2003**
**Eitem: 3**

## MATERION GORFODAETH

**ENF/2002/0043 Mold Road, Bodfari**

**ENF/2003/0009 Ruthin Road, Llandegla**

**COPIAU AR GAEL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

# ENWI A RHIFO EIDDO

# YN FFORDD LARKMOUNT, Y RHYL

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn am benderfyniad yr Aelodau ynghylch enwi / rhifo eiddo ym mhen dwyreiniol Ffordd Larkmount, y Rhyl.

## 2. CEFNDIR

2.1 Derbyniodd y Cyngor gais oddi wrth un o drigolion y tri eiddo ym mhen dwyreiniol Ffordd Larkmount yn gofyn am ddyrannu rhifau post i'r tai yma ac i weddill y stryd, gan ei bod yn cael anawster gyda thacsis ac ambiwlans yn methu â dod o hyd i'w thy.

2.2 Mae'r rhan yma o Ffordd Larkmount yn cael ei wahanu oddi wrth weddill y stryd gan gyffordd Cheltenham Avenue / Tynewydd Roed. Ar y rhan arall o Ffordd Larkmount dim ond un ochr sydd wedi'i rhifo fel teras: Rhifau 1 – 13 (odrif ac eilrif) Teras Tynewydd, er fod enw'r Teras wedi'i ollwng dros y blynyddoedd gan rai o'r trigolion. Ni rifwyd ochr arall y ffordd gyda'r eiddo'n defnyddio enw ty yn unig. Mae'r cais yn gofyn i'r tai hyn gael eu rhifo o 14 ymlaen i gyfeiriad y cloc yn ôl i beth fyddai Rhif 21 ar gyfer y ty newydd ym mhen Ffordd Pendyffryn (gweler y **cynllun ynghlwm**)

2.3 Atebion amgen eraill a gynigir yw:

- dyrannu enw newydd i'r darn yno o'r stryd – e.e. Larkmount Close neu Courtrhifo'r tri thy fel parhad o Ffordd Tynewydd h.y.. Parkfield Rhif 70, Gwynthorpe Rhif 72 a Holmleigh Rhif 74 Ffordd Tynewydd
- rhifo'r tri thy fel parhad o Cheltenham Avenue h.y. Holmleigh Rhif 35, Gwynthorpe Rhif 37 a Parkfield Rhif 39 Cheltenham Avenue.

## 3. YMATEB Y TRIGOLION

3.1 Ymgynghorwyd â thrigolion yr eiddo'n defnyddio enw ty ynghylch dyrannu rhif post ac ymateb trigolion 5 eiddo oedd eu bod yn dymuno cadw enwau ar eu tai. Yr unig eiddo sy'n cefnogi rhifo yw'r eiddo a wnaeth y cais gwreiddiol. Yn ddiweddar gosodwyd plât enw ffordd newydd yn wynebu ar i fyny Ffordd Tynewydd i ddangos fod y darn yma o'r ffordd yn rhan o Ffordd Larkmount.

3.2 Ar ôl awgrymu i'r 3 eiddo y dylid ailenwi'r darn stryd, ni chafwyd ateb oddi wrth un eiddo, nid yw un arall y dymuno enw newydd, gan ddweud y dylai platiau enw stryd newydd ar y 4 cornel o'r gyffordd ateb y broblem, ac fel a ddatganwyd uchod mae'r trydydd eiddo'n cefnogi rhifo.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 O ystyried y gwrthwynebiadau i'r rhifo a diffyg cefnogaeth i'r dewisiadau arfaethedig eraill, argymhellir gosod platiau enw ffordd newydd ar y 4 cornel, a phlatiau enw ffordd newydd ar ochr ddwyreiniol Ffordd Tynewydd i ddarllen "Larkmount Road yn arwain at

Parkfield, Gwnthorpe and Holmleith”. Ar ôl hynny gellid adolygu mewn ymgynghoriaeth â’r trigolion o fewn 12 mis i weld a oedd yn haws dod o hyd i’r eiddo dan sylw.

PWYLLGOR CYNLLUNIO
23 Gorffennaf 2003
AGENDA EITEM. 5

## ADRODDIAD Y PENNAETH CYNLLUNIO

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

### 1. PWRPAS

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliad Safle y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

### 2. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**2.1** Ar ôl ymgynghori penderfynwyd mai **ddydd Gwener, 1 Awst, 2003** sydd fwyaf adda Trefnwyd y dyddiad yn amodol.

**2.2** Cynghorir chi felly y cynhelir unrhyw ymweliad safle **ddydd Gwener, 1 Awst, 2003 (nodir yr amser yn nês ymlaen).**

### 3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

### 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Bod Aelodau yn cytuno i gynnal yr Ymweliad Safle ddydd Gwener, 1 Awst, 2003**

## ADRODDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# DIWEDDARIAD AR BENDERFYNIAD APÊL

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu'r aelodau ynghylch penderfyniadau apêl diweddar.

## 2. CEFNDIR

2.1 Cynigiodd yr adroddiad ar y cynllun a threfniadau dirprwyo a drafodwyd yn y Pwyllgor Cynllunio ar 31 Hydref 2001 ac a gafodd ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 27ain Tachwedd 2001 y dylid darparu crynodeb o benderfyniadau apêl i'r Pwyllgor Cynllunio. Gosodir y penderfyniadau apêl a dderbyniwyd rhwng Ionawr – Mehefin 2003 yn yr **atodiad ynghlwm**.

2.2 Yn ôl cais yr Aelodau rydym wedi cynnwys colofn yn nodi lefel y penderfyniad gwreiddiol (Pwyllgor neu Ddirprwyedig) ac argymhelliad y swyddog.

2.3 Rydym yn fodlon ateb cwestiynau ar benderfyniadau apêl yn y Pwyllgor Cynllunio, ond os hoffech drafod unrhyw fanylion, cysylltwch â Mark Dakeyne neu Ian Weaver cyn y cyfarfod.

**Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yr aelodau.**

PWYLLGOR CYNLLUNIO
CYFARFOD: 23ain Gorffennaf 2003
EITEM:7

# Penderfyniadau a Gymerwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio dan Hawliau Dirprwyedig 1af - 30ain Mehefin 2003

## Eitem er Gwybodaeth

Mae hon yn rhestr o geisiadau lle cymerwyd pende rfyniadau eisoes dan hawliau dirprwyedig. Os ydych yn dymuno trafod y cais/penderfyniad, yna cysylltwch gyda'r Swyddog Achos os gwelwch yn dda.

## MATHAU O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| CANIATAU | - rhoi caniatâd cynllunio |
| GWRTHOD | - gwrthod pob math o geisiadau |
| CYMERADWYO | - cymeradwyo materion neilltuedig neu amod |
| CANIATÂD | - rhoi caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu hysbysebu |
| TYBIEDIG | - dim angen caniatâd hysbysebu |
| DIM GWRTH | - dim gwrthwynebiad i goeden(coed) mewn ardaloedd cadwraeth |
| DIM ANGEN | - nid oes angen caniatâd ar gyfer y cais |
| PENDERFYNU | - penderfyniad nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw neu rhoddir ar benderfynu cais (gwaith telegyfathrebu neu amaethyddol penodol) |
| DAT. A GANIATEIR | - canfod bod cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn cais |
| TYNNU'N ÔL | - cais wedi ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd |
| ANNILYS | - canfod bod cais yn annilys |
| TYSTYSGRIFO | - cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithiol |
| G.TYSTYSGRIFO | - gwrthod cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol |